**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant MS,
Chair, Children, Young People and Education Committee
Seneddchildren@senedd.wales

19 Mai 2023

Annwyl Jayne

**Penodi Prif Weithredwr i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mai yn ymwneud â phenodi Prif Swyddog Gweithredol i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Yn eich llythyr, gwnaethoch ofyn nifer o gwestiynau yr wyf wedi eu hateb isod.

1. Cyn i'r panel wneud ei argymhellion ffurfiol i chi, a gawsant unrhyw adborth – naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, neu unrhyw gyfeiriad neu arwydd gennych chi neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan ynghylch pa mor dderbyniol neu fel arall oedd unrhyw rai o'r ymgeiswyr?

Na, ni roddais arweiniad i'r panel ar dderbynioldeb unrhyw un o'r ymgeiswyr cyn i'r panel wneud ei argymhellion ffurfiol i mi. Rhoddodd swyddogion gyngor ar wahanol gamau o'r broses benodi ar ôl i drafodaethau'r panel ddod i ben.

2. Pa ran oedd gennych yn y broses cyn eich cyfarfod ym mis Mawrth, ar ôl i'r broses recriwtio ddod i ben, i drafod camau nesaf?

Wrth dderbyn cyngor y panel nad oeddent yn gallu argymell ymgeisydd i'w benodi, nodais y sefyllfa a phwysleisio ei bod yn bwysig i'r person a argymhellir yn y pen draw ar gyfer y penodiad feddu ar brofiad o Addysg Bellach neu Ddysgu Seiliedig ar Waith. Fe wnaeth swyddogion roi papur briffio i mi wedyn ar opsiynau posibl ar gyfer penodi Prif Weithredwr a'r goblygiadau i'r Comisiwn o gael cyfnod byrrach i ymgymryd â gwaith paratoi cyn dod yn weithredol.

3. A allwch roi mwy o wybodaeth am pam y gwnaethoch benderfynu mynd ymlaen i apwyntio'n uniongyrchol yn hytrach nag ail-hysbysebu?

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn darparu bod y Comisiwn yn cynnwys Prif Weithredwr, Cadeirydd, Cadeirydd o'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (sydd hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd) ac o leiaf pedwar Aelod Bwrdd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I sicrhau trosglwyddo didrafferth a pharhad o ran darpariaeth cyn i'r Comisiwn ddod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024, mae angen i'r Comisiwn ymgymryd ag ystod o weithgareddau paratoi. Mae hyn yn cynnwys gwaith paratoi ar y system gofrestru; ymgynghori ar benodi Aelodau Cyswllt y Bwrdd; datblygu telerau ac amodau cyflogaeth a pholisïau AD cysylltiedig; ymgynghori ar fesurau'n ymwneud â throsglwyddo staff; cwblhau gwaith ar gynllunio sefydliadol (h.y. model gweithredu a strwythur); a dechrau unrhyw brosesau recriwtio angenrheidiol.

Ni all y Comisiwn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn nes bod y penodiadau uchod yn cael eu gwneud. Felly, mae penodiad amserol y Prif Weithredwr yn hanfodol er mwyn i'r Comisiwn fod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024.

Wrth wneud fy mhenderfyniad roeddwn hefyd o'r farn, gan fod proses benodi drylwyr ac agored newydd ddod i ben, na fyddai ail-hysbysebu'r swydd ar unwaith yn debygol o ddenu carfan wahanol o ymgeiswyr a fyddai'n addas i'w penodi.

4. I ba raddau yr oedd y panel recriwtio gwreiddiol yn ymwneud â'r penderfyniad i fynd ymlaen i benodi'n uniongyrchol, a nodi ymgeiswyr posibl? Mae'r papur a ddarparwyd i'w weld yn awgrymu bod un aelod o'r panel yn rhan o'r trafodaethau hyn, ond a oedd aelodau eraill yn cymryd rhan? Os nad oedd y panel cyfan yn rhan o'r trafodaethau a'r penderfyniadau hyn, a allwch amlinellu pam nad oeddent, a phwy a benderfynodd pa aelodau o'r panel a fyddai'n cymryd rhan?

Roedd tri aelod o'r panel gwreiddiol (isod) yn rhan o'r trafodaethau i symud ymlaen i benodiad uniongyrchol. Roedd dau yn swyddogion o Lywodraeth Cymru a Chadeirydd y Comisiwn oedd y llall a oedd felly angen bod yn rhan o'r broses. Fe wnaethant hefyd gwrdd â'r ymgeisydd i drafod y rôl yn fanylach. Er nad oedd hwn yn gyfweliad, roedd yn gyfle i aelodau'r panel siarad â Simon am y rôl a nodi themâu a heriau allweddol sy'n gysylltiedig â swydd y Prif Swyddog Gweithredol.

- Jo-Anne Daniels - Cadeirydd y Panel, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Yr Athro Fonesig Julie Lydon – Cadeirydd y Comisiwn
- James Owen – Cyfarwyddwr, Rhaglen Gweithredu'r Comisiwn

Rwy'n hynod ddiolchgar i Clare Pillman ac Ellen Hazelkorn am eu hamser a'u barn ar yr ymgeiswyr fel rhan o'r broses gyfweld wreiddiol. Rwy'n deall bod eu cyfraniad i drafodaethau'r panel ynghylch yr ymgeiswyr yn amhrisiadwy. Ond, fel y soniais, nid oedd cyfweliad ar gyfer y penodiad uniongyrchol ac, fel aelodau annibynnol o'r panel, nid oeddent felly'n rhan o'r broses hon.

5. Pan benderfynoch symud at benodi'n uniongyrchol, sut y nodwyd ymgeiswyr posibl, a phwy a arweiniodd ar y gwaith hwn?

6. A oedd unrhyw gyrff allanol, fel asiantaethau recriwtio, yn ymwneud â'r broses o nodi ymgeiswyr?

Gweithiodd James Owen (Cyfarwyddwr Rhaglen Gweithredu'r Comisiwn) gyda'r cwmni chwilio penodedig (Odgers Berndtson) i nodi ymgeiswyr posibl â phrofiad o weithio ar lefel Prif Weithredwr a chefndir mewn Addysg Bellach neu Ddysgu Seiliedig ar Waith.

7. Faint o ymgeiswyr posibl y cysylltwyd â nhw fel rhan o'r broses recriwtio uniongyrchol?

Fel rhan o'r broses o nodi ymgeiswyr posibl, siaradodd y cwmni chwilio â dau berson cyn fy nghyfarfod â James Owen ar 13 Mawrth. Yn dilyn ein cyfarfod, Simon Pirotte oedd yr unig ymgeisydd y cysylltodd y cwmni ag ef.

8. A oedd unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig neu wrthdaro buddiannau posibl a nodwyd rhwng y bobl hynny a oedd yn ymwneud â'r recriwtio uniongyrchol a'r bobl a nodwyd fel ymgeiswyr posibl drwy'r cam recriwtio uniongyrchol?

Asesodd swyddogion y broses benodi uniongyrchol i sicrhau bod y camau a argymhellwyd yn bodloni'r safonau rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a dichonoldeb a ddisgwylir gan y Senedd a'r cyhoedd ar gyfer defnyddio adnoddau cyhoeddus. Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

9. A yw'r ymgeisydd a ffefrir wedi datgan unrhyw weithgarwch neu ymlyniad gwleidyddol?

Mae Simon wedi cadarnhau nad yw wedi ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Rwy'n ymwybodol o'ch pryderon ynghylch y broses penodiadau cyhoeddus, ac fel y dywedoch penodiad Gweinidogol oedd hwn nid penodiad cyhoeddus. Rwy'n croesawu'r craffu ychwanegol a ddarparwyd gan wrandawiad cyn penodi a dyna pam y cynigiais y dylai Prif Swyddog Gweithredol fynd i wrandawiad gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod taith y Bil.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymatebion hyn yn rhoi'r eglurder a'r sicrwydd yr ydych yn ei geisio mewn perthynas â'r broses benodi uniongyrchol.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language